

Climate Adaptation

Ymaddasu i Newid
Hinsawdd



Mapio Cyfranogol

Mapio Cyfranogol

Cyflwyniad

Mae mapio cyfranogol yn ffordd o greu mapiau sy'n dangos gwybodaeth a phrofiadau pobl o le a'u rhyngweithio ag ef. Gall y dull hwn fod yn arbennig o ddefnyddiol i ddeall sut mae newid hinsawdd yn effeithio - neu sut y gallai effeithio - ar eich cymuned.

Mae'r dull hwn yn cydnabod y canlynol:

- Mae cymunedau lleol yn arbenigwyr ar eu hardaloedd eu hunain, gyda dealltwriaeth ddefn o batrymau hinsawdd y gorffennol a'r lleoedd sydd fwyaf mewn perygl.
- Mae gwybodaeth gymunedol yn helpu i greu atebion lleol effeithiol ar gyfer addasu i newid hinsawdd
- Mae'r broses hon yn helpu cymunedau i ddeall risgiau hinsawdd, datblygu strategaethau a hefyd yn grymuso pobl drwy roi llais i bawb - gan gynnwys grwpiau ymylol a bregus - yn y cynllunio.

Ar gyfer pwy mae'r broses hon?

Mae'r broses hon ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb yn y ffordd y mae newid hinsawdd yn effeithio, neu y gallai effeithio, ar faes penodol. Mae'n fwyaf effeithiol pan gaiff ei ddefnyddio ar draws cymuned, gan sicrhau bod cymaint o safbwyntiau gwahanol â phosibl yn cael eu dal.

Beth fyddwch chi'n ei gael allan o'r broses hon?

Bydd y broses hon yn cynhyrchu map o'r lleoedd a'r cymunedau yr effeithir arnynt fwyaf gan / sydd fwyaf mewn perygl o gael eu heffeithio gan effeithiau newid yn yr hinsawdd, ynghyd â gwybodaeth am adnoddau a chymorth sydd ar gael i'r gymuned. Gall canlyniadau'r mapio hwn arwain ymagwedd y gymuned at addasu i'r hinsawdd drwy nodi blaenoriaethau lleol.

Sut i'w defnyddio

1. Argraffwch fap mawr o'ch ardal leol.
 2. Nodwch eich cwestiynau ymchwil penodol.
- Crewch gwestiynau clir ffocysedig i gyfranogwyr eu hateb yn ystod y broses fapio.

Enghreifftiau:

- *Pa ardaloedd yn eich cymuned ydych chi'n eu nodi fel y rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan newidiadau sy'n ymwneud â'r hinsawdd, megis llifogydd, stormydd, tanau gwyllt neu erydu arfordirol?*
- *Beth yw'r lleoliadau y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer ymdrechion addasu i'r hinsawdd?*
- *Ble mae'r seilwaith, gwasanaethau a thai hanfodol sydd fwyaf agored i risgiau hinsawdd?*
- *A oes yna gynefinoedd naturiol ac ecosystemau mewn perygl oherwydd newid hinsawdd?*

3. Rhestrwch y cwestiynau o'ch dewis wrth ymyl eich map a rhowch liw dot/pin/pen gludiog i bob cwestiwn.

4. Gwahoddwch eich cymuned i gymryd rhan yn yr ymarfer mapio.

5. Cofnodwch sylwadau a gwybodaeth gan gyfranogwyr wrth iddynt ymhelaethu ar lafar ar eu lleoliadau a roddwyd mewn ymateb i bob cwestiwn.

Nodiadau:

Dylai cyfranogwyr gynrychioli safbwyntiau amrywiol a meddu ar wybodaeth leol berthnasol.

Dewiswch y technegau a'r offer y byddwch chi'n eu defnyddio i gasglu gwybodaeth gan gyfranogwyr.

Mae dulliau casglu data eraill yn cynnwys:

- Marcio digidol ar fap gan ddefnyddio offer fel bwrdd gwyn ar-lein [Miro](#) neu [Canva](#).
- Cyfesurynnau recordio
- Tynnu ffotograffau a fideos
- Defnyddio mapio GPS

Dulliau dadansoddi data - Penderfynwch sut y byddwch yn trefnu, dehongli a dadansoddi'r data a gesglir yn ystod y broses fapio.

Mae'r cam hwn yn cynnwys nodi patrymau, themâu, a chanfyddiadau allweddol a fydd yn siapio'r mapiau terfynol a chasgliadau cyffredinol y prosiect.

Mae dulliau posibl yn cynnwys:

- **Dadansoddiad thematig:** Codio sgriptiau cyfweliad neu anodiadau map i nodi themâu sy'n codi dro ar ôl tro.
- **Dadansoddiad gofodol:** Nodi meysydd gweithgaredd uchel ac isel a chymharu patrymau ar draws gwahanol grwpiau.

- **Dadansoddiad meintiol:** Dadansoddi ymatebion arolwg a data demograffig.

Crynowch y pynciau a drafodwyd, ysgrifennwch gasgliadau a gwnewch nodiadau o'r camau gweithredu i'w dilyn.